

Pam Mae Hyn yn Bwysig

Bydd etholiad Senedd Cymru 2026 yn edrych ac yn teimlo'n wahanol iawn i unrhyw beth y mae Cymru wedi'i brofi o'r blaen. Mae'r newidiadau'n sylweddol: mwy o Aelodau, etholaethau mwy, a system bleidleisio gwbl newydd. Fel eglwysi a chymunedau ffydd, mae gennym gyfrifoldeb i ddeall y newidiadau hyn ac i helpu ein cynulleidfaoedd i ymgysylltu'n hyderus â'r broses ddemocrataidd.

Mae'r briff hwn yn nodi'r hyn sy'n newid, beth mae'n ei olygu'n ymarferol, a sut y gallwch chi a'ch cymuned baratoi.

Y Newidiadau Allweddol ar un Olwg

96 o Aelodau yn lle 60

16 o etholaethau newydd yn lle'r hen gymysgedd o etholaeth ac rhestr ranbarthol

6 Aelod fesul etholaeth am gynrychiolaeth ehangach

Un bleidlais dros blaid neu ymgeisydd annibynnol

Cynrychiolaeth gyfrannol drwy ddull D'Hondt

Mwy o Aelodau, Etholaethau Mwy

O etholiad 2026, bydd y Senedd yn ehangu o 60 i 96 o Aelodau. Mae'r hen system – cyfuniad o 40 sedd etholaeth a seddi rhestr ranbarthol – yn cael ei disodli. Yn lle hynny, bydd Cymru'n cael ei rhannu'n 16 o etholaethau newydd, mwy, a phob un yn ethol chwe Aelod. Mae hyn yn golygu y bydd gan eich ardal fwy o leisiau yn y Senedd, a bydd cymunedau'n elwa o gynrychiolaeth ehangach a mwy amrywiol.

System Bleidleisio Newydd

Mewn etholiadau blaenorol i'r Senedd, roedd pleidleiswyr yn bwrw dwy bleidlais – un dros ymgeisydd etholaeth ac un dros restr blaid ranbarthol. Mae hynny'n newid yn 2026. Byddwch nawr yn bwrw **un bleidlais unigol** dros blaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol.

Caiff seddi eu dyrannu'n gyfrannol gan ddefnyddio fformiwla fathemategol o'r enw dull D'Hondt. Yn syml, bydd nifer y seddi y mae plaid yn eu hennill ym mhob etholaeth yn adlewyrchu'n agosach y gyfran o bleidleisiau a gaiff. Y nod yw gwneud y Senedd yn fwy cynrychioladol o safbwyntiau gwleidyddol pobl ledled Cymru.

Beth i'w Ddisgwyl Wrth Bleidleisio

- Byddwch yn derbyn **un papur pleidleisio** (nid dau, fel o'r blaen).
- Bydd y papur pleidleisio yn rhestru pleidiau gwleidyddol (ynghyd â'u rhestrau ymgeiswyr) ac unrhyw ymgeiswyr annibynnol.
- Marciwch eich dewis gydag **un X**.
- Caiff seddi eu dyrannu'n gyfrannol gan ddefnyddio dull D'Hondt.

Sut i Baratoi

- Gwiriwch eich cofrestrriad.** Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i bleidleisio yn <https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio> neu cysylltwch â'ch awdurdod lleol.
- Dewch o hyd i'ch etholaeth newydd.** Mae gan y 16 etholaeth newydd ffiniau gwahanol – gwiriwch pa unrhydd ynddi ar wefan Senedd Cymru.
- Dewch â dogfen adnabod.** Sicrhewch fod gennych unrhyw ddogfen adnabod angenrheidiol wrth fynd i'r orsaf bleidleisio.
- Ystyriwch eich pleidlais.** Edrychwch ar faniffestos pleidiau a gwybodaeth am ymgeiswyr lleol.

Pam Mae'r Newidiadau Hyn yn Bwysig

Nod y diwygiadau hyn yw gwneud democratiaeth Cymru'n decach ac yn fwy effeithiol. Gyda mwy o Aelodau a system gyfrannol, bydd y Senedd mewn sefyllfa well i graffu ar ddeddfau, dwyn y llywodraeth i gyfrif, a chynrychioli amrywiaeth gyfoethog Cymru. I eglwysi a chymunedau ffydd, mae cyfranogiad gwybodus a phwrpasol mewn democratiaeth yn rhan o'n galwad ehangach i wasanaethu'r lles cyffredin.

Beth All Eglwysi a Chymunedau Ffydd ei Wneud?

Fel sefydliadau cymunedol y mae pobl yn ymddiried ynddynt, mae eglwysi mewn sefyllfa dda i gefnogi ymgysylltiad democrataidd:

- Rhannwch y wybodaeth hon** gyda'ch cynulleidfia a'ch rhwydweithiau cymunedol ehangach.
- Cynhaliwch neu gefnogwch gyfarfodydd hustyngau** i roi cyfle i ymgeiswyr ymateb i bryderon lleol.
- Anogwch bobl i gofrestru i bleidleisio**, yn enwedig y rhai sy'n llai cyfarwydd â'r broses neu sydd wedi symud yn ddiweddar.
- Gweddïwch dros yr etholiad**, dros y rhai sy'n sefyll fel ymgeiswyr, ac am ddoethineb yn y dewisiadau y bydd pleidleiswyr yn eu gwneud.
- Ymgysylltwch ag ymgeiswyr** ar faterion sy'n bwysig i'ch cymuned – tai, iechyd, addysg, tlodi, a'r amgylchedd.

Rhagor o Wybodaeth

Am esboniad manylach o'r system newydd, ewch i [wefan Senedd Cymru](#). Am restr ddefnyddiol o ymgeiswyr sydd wedi'u datgan, ewch i [Who Can I Vote For?](#) yn whocanivotefor.co.uk. Noder na all Cytûn fod yn gyfrifol am gywirdeb gwybodaeth allanol.

Am arweiniad pellach gan Gytûn ar ffydd ac ymgysylltiad democrataidd, cysylltwch â ni drwy ein gwefan.